CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**07.03.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) DAW ; JAJ; TAJ;EY; LLMH; EO;<br>**Ymddiheuriadau:** DP; IW;AR; JOJ;RY;GW<br>Mynyc**hu:** SWR<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddwy brofedigaeth yn y pentref. Cydymdeimlwyd gyda Cyng. Ann Roberts yn dilyn colli ei Mham, Mrs Molly Williams. Cydymdeimlwyd hefyd a Cyng Dafydd Parry yn dilyn colli ei chwaer Mrs Falmai Jones. Cytunwyd i'r Clerc anfon cerdyn cydymdeimlad at y ddau deulu. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW a LLMH ddiddordeb yn Eitem 6 Materion Cyllidol |
| **3** | **Cofnodion 01.02.24** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 01.02.24 fel rhai cywir (DAW/EO)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>• **Cwmni Cymuedol –** nododd y Clerc ei bod wedi cylchredeg nodiadau o'r cyfarfod gyda swyddogion Menter Môn eisoes. Cadarnhawyd bod Dafydd Gruffudd wedi anfon ymateb gan Andrea Knox Ymgynghorydd Busnes a bod y Clerc wedi cyfarfod gyda swyddog cyllid Menter Môn. Clerc i gysylltu hefo Mr Dafydd Gruffudd i drafod camau nesaf. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** nododd y Clerc ei bod wedi anfon diweddariad i'r CG ac yn disgwyl ymateb a fydd yn cael ei gylchredeg at yr aelodau.<br><br>• **Adborth Grant Cae Astro –** gwaith yn mynd rhagddo i geisio grant trwy FAW am oddeutu £60K i adnewyddu'r cae. Dyddiad cau 29.3.24 sy'n amserlen dyn iawn. Clerc i gylchredeg copi o'r les at bawb.<br><br>• **Gwaredu Byrddau Snwcer –** nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu a 2 gwmni yn LLoegr ond dim diddordeb prynu'r byrddau. Cytunwyd i RJ holi Clwb Amwlch eto i weld faint fyddent yn fodlon dalu am y byrddau. Yna, Clerc i holi ymgymerwyr yr Ynys a seiri maen am brynu llechi'r byrddau. Clerc hefyd i holi Unllais os ydy yn briodol i CC Llan geisio eu gwerthu ar y cyfryngau cymdeithasol.e.e EBay.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 07.03.24 |
| 5 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog –** cylchredwyd y fersiwn diweddaraf a argymhellir gan Unllais. Derbyniwyd ei gynnwys yn unfrydol.<br><br>• **Casglu Sbwriel Cae Astro -**nodwyd bod problem sbwriel (ee vapes lliwgar sy'n ymdebygu i pinau ffelt) ar y safle a bod gofalwyr a staff yr Ysgol yn gorfod gwirio a chlirio ben bore cyn i'r plant gyrraedd. Clerc i holi am drefniant gosod bin efo CSYM a holi am ffyrdd i waredu gyda'r Pennaeth.<br><br>• **Trwsio Camfa Goed –** nodwyd bod camfa goed ger Plas Gynnau angen ei thrwsio. Clerc i holi ymhellach am drwsio a cheisio ad-daliad trwy'r Cyngor Sir. |
| 6 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Chwefror –** **£**<br>Cyflog Clerc – Chwefror 450.08<br>RPO Williams – dwr i fynwent Peniel 372.60<br>Scottish Power – Golau Dolig 218.20<br>Scottish Power – CPD 205.53<br>Emma Dixon Capel Peniel rhodd flynyddol tuag at gyflenwad dwr 20.00<br>SP Pluming – sicrhau tystysgrif Nwy statudol i'r Caffi 260.00<br>Rhys Williams – torri gwair 2195.00<br><br>Nododd y Clerc bod Grant Claddu Plant gan CSYM i law a'i fod wedi ei drosglwyddo i'r cyfrif cadw. Nododd hefyd bod taliad i Adran Cynllunio |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | CSYM am gais i osod cynhwysydd yn £115 ond bydd ad-daliad gan y Clwb Iau.<br>Yr un modd roedd CC Llan yn dal grant £250 gan Heddlu Gogledd Cymru ar ran trigolion Tan y Foel i wella adnoddau yn y lolfa. Mae y swm bellach wedi ei drosglwyddo i Mrs Noreen Needham ac mae wedi arwyddo amdano.<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Williams Bros – trwsio giat Peniel £20.00; gosod y teledu yn yr ystafell gyfarfod £15; gosod plac Pont Y Ddamwain £30.00<br>– llafur yn unig. 65.00<br><br>**Rhoddion Blynyddol:**<br>Cytunwyd i'r canlynol yn dilyn trafodaeth ar sefyllfa ariannol gyfredol CC Llan :<br><br>Yr Arwydd 100.00<br>Hosbis Dewi Sant 50.00<br>Radio Ysbyty Gwynedd 25.00<br>Cynnigwyd yr uchod gan LLMH ac fe eilwyd gan EO – cytunwyd yn unfrydol<br><br>Ynglyn a chais ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Môn 2026, cytunwyd i'r Clerc holi am y drefn i noddi cystadleuaeth yn hytrach na chyfranu swm o arian ar hyn o bryd.<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 4467.00<br>Cyfrif Cadw: £ 6519.09<br><br>Yr uchod yn dilyn trosglwyddo £3K ar gyfer talu Rhys Williams a thaliad mis Mawrth PWLB. |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br>**Penderfyniad –** Dinas Noddfa 62 Stryd Fawr – cylchredwyd eisoes**.**<br><br>**Cais Cynllunio ar ran CPD LLan'medd -** yn yr arfaeth |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** ymddiheurodd LLMH ar ran Cyng Jackie Lewis sydd heb ddychwelyd i ddyletswyddau CSYM yn llwyr eto yn dilyn ei phrofedigaeth.<br><br>Nododd hefyd mai prif drafodaethau yn y Cyngor yw y Gyllideb a'r newyddion am bryniant safle Wylfa gan y Llywodraeth. |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel -** angen ail-gynnau'r trafodaethau am ddyfodol yr ardal. |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Safle'r Stesion –** Clive Harper yn hapus i osod lluniau. Angen casglu'r lluniau addas a threfnu lle i osod wedyn.<br>**Lawnt Fowlio –** Clerc i drefnu cyfarfod hefo Clwb Llanfair – TAJ/IW i fynychu.<br>**Clwb Peldroed –** materion i'w trafod yng nghyfarfod Ebrill<br>**Cae Gofeb –** Clerc wedi holi Saer Maen Amlwch a thrafodaethau i ddilyn am ddyluniad er mwyn cael pris. Mae hyn bellach yn rhan o drafodaeth gyda Menter Mon – Balchder Bro.<br>**Mynwentydd** – Taliad olaf tymor torri gwair 2023 i law. Rhys Willimas - £2195.00 |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd uchod ac ar y Rhaglen – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm* |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com